

2017/18

Datganiad Cydydffurfio



Datganiad Cydymffurfio

Dyma'r datganiad gan Gartrefi Cymoedd Merthyr bod ein mudiad cydfuddiannol ar 19 Gorffennaf 2018 wedi diwallu'r Safonau Perfformiad a osodwyd gan y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru Mai 2017.

Yn ei dogfennau 'Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai wedi'u Cofrestru yng Nghymru' mae Llywodraeth Cymru'n gosod cyfres o Safonau Perfformiad sy'n canolbwyntio ar y risgiau allweddol a'r materion strategol sy'n wynebu cymdeithasau tai. Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i Gymdeithasau Tai ddiwallu Safonau Perfformiad.

Mae'r tablau canlynol yn grynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd sydd wedi'i wirio a'i graffu gan ein Corff Democrataidd. Trwy gyflawni pob mesur gallwn gwblhau'r datganiad cydymffurfio hwn.

Crynodeb byr yn unig yw hwn a cheir corff o dystiolaeth sy'n cefnogi pob mesur. Ein Cynllun Blynyddol yw ein prif offeryn ar gyfer mesur cydymffurfedd a'r cynnydd. Os hoffech chi dderbyn gwybodaeth bellach yna cysylltwch â ni.

Enw a Rhif Cofrestru'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Cartrefi Cymoedd Merthyr 30532R

Swyddfa Gofrestredig Cartrefi Cymoedd Merthyr, Ty Brychan, 22 Heol Lansbury,

Gellideg, Merthyr Tydfil, CF48 1HA

Cymeradwywyd y datganiad cydymffurfio hwn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 19 Gorffennaf 2018 a chafodd ei dderbyn gan aelodau Cyfarfod Blynnyddol Aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr ar 6 Medi 2018


Arwyddwyd

Cadeirydd: Nicola Evans

Dyddiad: 6 Medi 2018

Safon Perfformiad 1

Mae gan y Bwrdd a'r rheolwyr gweithredol effeithiol weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
1.1 Mae'n gosod gweledigaeth glir a gwerthoedd ar gyfer y sefydliad sy'n darparu a chynyddu diben craidd y busnes.	Cafodd Yfory ei fabwysiadu yn 2016, ac ym mis Mawrth 2017 fe wnaethom fabwysiadu cynllun manwl i olrhain pa mor dda mae'r Bwrdd yn cyflawni'r hyn a amlinellir yn Yfory. Cynhaliodd y Bwrdd Democrataidd gyfarfod arbennig ym mis Mehefin 2018 i ymgymryd ag adolygiad manwl o'r cynllun, a daeth i'r casgliad ei fod yn fodlon â'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.	
1.2 Mae trefniadau llywodraethu yn gosod a chynnal rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer y Bwrdd, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod trefniadau uniondeb priodol mewn lle.	Cynllun dirprwyo a rheolau sefydlog clir rhwng y weithrediaeth a'r elfen anweithredol. Ceir craffu ychwanegol trwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a'r Corff Democrataidd.	
1.3 Cydymffurfir â dogfennau llywodraethu gan gynnwys mabwysiadu a chydymffurfio â chod llywodraethu priodol.	Roedd Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein strwythur cydfuddiannol ar sail Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru a lansiwyd yn ddiweddar.	
1.4 Glynir at bob gofyniad cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol.	Dim methiant i gydymffurfio.	

Safon Perfformiad 2

Ffyrdd effeithiol a phriodol o gynnwys tenantiaid, a sicrhau gwasanaethau o safon uchel sy'n gwella.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
2.1 Dangosir sut mae tenantiaid wedi'u cynnwys yn effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau strategol a llunio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer tenantiaid a'r sefydliad.	Tenantiaid a chyflogeion sy'n aelodau sydd yn berchen ar y sefydliad ac sy'n rheoli'r holl strwythur llywodraethu. Hwyl sy'n penodi'r Bwrdd ac yn gosod nodau ac amcanion y sefydliad.	
2.2 Dangosir sut mae'r Bwrdd yn sicrhau sicrwydd o ran perfformiad gwasanaethau cyfredol gan gynnwys boddhad tenantiaid ac yn gyrru gwella parhaus.	Cynhaliwyd arolwg STAR o'r tenantiaid ac adroddwyd arno i'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd. Cafwyd cynnydd ym moddhad cyffredinol y tenantiaid.	
2.3 Sicrheir bod pob cartref yn diwallu'r safonau dylunio ac ansawdd gofynnol.	Wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod 98.45% o'n tai yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, ac mae gennym gynlluniau i godi'r ffigur hwn yn ôl i 100%. Diffyg mynediad yw'r rheswm pam nad yw 1.55% o'r tai yn cydymffurfio.	
2.4 Diwallir pob gofyniad statudol perthnasol gan ddarparu ar gyfer ieuchyd a diogelwch y preswylwyr yn y cartref.	Adrodd yn rheolaidd ar gydymffurfiaeth i'r Bwrdd, gan gynnwys cyfarfod arbennig o'r Bwrdd ar 29.06.18 i dderbyn adroddiad cynhwysfawr ar Iechyd, Diogelwch a Chydymffurfio pan gafodd y Bwrdd lawer iawn o sicrwydd. Adrodd hefyd trwy gyfrwng y Cynllun Blyneddol.	

Safon Perfformiad 3

Cynhelir asesiadau cynhwysfawr ar effeithiau risgiau cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg ar y busnes gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd gyda threfniadau rheoli risg cadarn.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
3.1 Diogelir diddordebau trethdalwyr ac enw da y sector a diogelir asedau tai cymdeithasol.	Parheir i fonitro risg yn helaeth ac adrodd arni'n rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio. Ceir craffu ar holl benderfyniadau'r Bwrdd er mwyn diogelu buddiannau tenantiaid a gwarchod ein hasedau i genedlaethau'r dyfodol.	
3.2 Ceir modd cadarn o asesu capasiti i dderbyn cyfleoedd busnes a datblygu newydd.	Dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw weithgareddau y tu hwnt i rôl graidd landlordiaid.	
3.3 Cynhelir prawf straen manwl a chadarn ar gynlluniau ariannol yn erbyn ystod o senarios gan adnabod strategaethau lliniaru perthnasol.	Rydym wedi gwneud gwaith manwl o ran profi straen gwahanol sefyllfaoedd yng nghyswllt ein Cynllun Busnes.	
3.4 Cyn derbyn unrhyw rwymedigaethau newydd sicrhau bod rhwymedigaethau wedi'u deall yn llawn gan ddangos sut y rhoddir ystyriaeth i effaith debygol ar y busnes cyfredol ac yn y dyfodol a rheolir cydymffurfedd rheoleiddiol.	Yr unig wasanaethau y mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn eu gweithredu ar ran cyrff eraill yw darparu cyfleusterau am ddim i'r grwpiau cymunedol canlynol:- Prosiect Ieuenctid Forsythia Canolfan Gymunedol Galon Uchaf Clwb Ieuenctid Trefechan Canolfan Gymunedol Trelewis.	

Safon Perfformiad 4

Ceir tystiolaeth glir o hunanwerthuso a datganiad o gydymffurfio.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
4.1 Dangosir sut mae tenantiaid wedi'u cynnwys yn effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau strategol a llunio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer tenantiaid a'r sefydliad.	Mae dros 1,000 o denantiaid yn aelodau, ac maent yn dylanwadu ar holl weithgarwch Cartrefi Cymoedd Merthyr. Eleni rydym wedi: - Ymgynghori ar bolisi rhent newydd a strategaeth gwerth am arian Yfory Cryf. - Bu i gynrychiolwyr y tenantiaid argymhell y gyllideb a'r cynnydd mewn rhent. - Bu i'r tenantiaid hefyd bleidleisio mewn nifer o etholiadau i'r Corff Democrataidd, i newid i flwyddyn rent 52 wythnos, i enwi ein pencadlys newydd, i ddewis ein helusen. Bu i grwpiau ffocws brofi ein strategaeth gwerth am arian a dylanwadu ar ein blaenoriaethau.	

Safon Perfformiad 5

Cedwir cofnod tracio ar gyfer cyflawni canlyniadau cadarnhaol, ymateb yn briodol i heriau newydd a materion sy'n ymwneud â pherfformiad.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
5.1 Dangosir sut mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd i'w hun o ran perfformiad cyfredol ac yn gyrru gwella parhaus.	Mae ein Cynllun Blynyddol yn cyd-fynd â'r strategaeth Yfory, ac yn cael ei fonitro gan y Bwrdd.	
5.2 Dangosir sut mae gosodiadau yn gwneud y defnydd gorau o'r tai sydd ar gael ac yn cyd-fynd â diben craidd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.	Dilynir polisi neilltuo'r awdurdod lleol wrth osod pob tŷ.	

Safon Perfformiad 6

Darperir gwerth am arian ym mhob maes y busnes.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
6.1 Dangosir dull strategol ar gyfer gwerth am arian ar draws y busnes a sicrhau hynny.	Gwnaed gwaith sylweddol ar y maes cydymffurfio hwn ac rydym wedi mabwysiadu 'Yfory Cryf' (ein Strategaeth Gwerth am Arian) ynghyd â'n rheolau aur a'n mecanweithiau adrodd dilynol. Rydym wedi cynhyrchu adroddiad Gwerth am Arian am y 4 blynedd diwethaf.	

Safon Perfformiad 7

Cydymffurfio â gofynion a chanllawiau rheoleiddiol a statudol.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
7.1 Cyfathrebir â'r rheoleiddiwr mewn ffordd amserol ynghylch materion materol sy'n ymwneud â pheidio â chydymffurfio.	Mae'r Rheoleiddiwr wedi cael gwybod am yr holl ddigwyddiadau o bwys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys bwriad y Prif Weithredwr i ymddeol.	

Safon Perfformiad 8

Ceir cynllun ariannol sy'n cyflenwi ac sy'n cefnogi'r cynllun busnes ac yn monitro'r perfformiad ariannol yn effeithiol.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
8.1 Sicrheir bod y sefydliad yn gadarn yn ariannol.	Mae Cynllun Busnes hyfyw yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan ein cyllidwyr.	
8.2 Gosodir systemau a rheoleiddion i fonitro ac adrodd yn gywir ar gyflenwi cynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.	Ceir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd, ac mae'r Cynllun Blynnyddol yn monitro'r holl reolaethau ariannol. Erys y darlun cyffredinol yn gadarn, gyda lefelau priodol o reolaeth a sicrwydd.	
8.3 Ceir monitro, adrodd a chydymffurfio â phob cyfamod.	Mae adroddiadau bob chwarter i'r Bwrdd yn cwmpasu cydymffurfiaeth â chyfamodau'r cyllidwr.	

Safon Perfformiad 9

Ceir rheolaeth effeithiol o weithrediadau trysorlys gan sicrhau hylifedd digonol bob amser.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
9.1 Sicrheir bod ariannu digonol ar gael i gyflenwi'r cynllun busnes.	Mae'r cynllun busnes wedi cael ei brofi gan y Bwrdd gyda nifer o sefyllfaoedd manwl ac mae'r cynllun yn parhau i fod yn gadarn.	
9.2 Sicrheir y seilir rhagolygon ariannol ar ragdybiaethau priodol a rhesymol.	Mae'r holl dybiaethau yn y cynllun yn rhai safonol o ran y diwydiant.	

Safon Perfformiad 10

Ceir dealltwriaeth glir am rwymedigaethau a pherfformiad asedau.



Safon Perfformiad	Sylwadau	A ydym yn cydymffurfio
10.1 Cedwir cofnod trylwyr, cywir a diweddar o asedau a rhwymedigaethau gan gynnwys yr holl rwymedigaethau sydd â hawl ddigolledu ar gyfer asedau tai cymdeithasol.	Cofrestr mewn lle ac yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Archwilio.	
10.2 Mae'r data ar gyfer perfformiad ariannol a chymdeithasol asedau yn gywir a chaiff ei ddefnyddio i hysbysu penderfyniadau buddsoddi.	Proses fanwl o archwiliadau mewnol ac olrhain trylwyr ar yr holl argymhellion archwilio mewnol.	
10.3 Sicrheir bod data ynghylch cyflwr eu hasedau yn ddiweddar ac ar gael i ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i gostau tymor byr a thymor hir, cynnal a chadw, atgyweiriadau ac adnewyddu.	Mae'r system asedau wedi cael ei hadolygu ac ychwanegir at y data a gasglwyd bob blwyddyn trwy gyfrwng arolygon allanol.	
10.4 Sicrheir bod cartrefi a ariennir yn allanol yn diwallu'r safonau a osodwyd yn Safonau Ansawdd Tai Cymru.	Mae 98.45% o'r cartrefi yn cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru, ac mae adnoddau ar gael o fewn y cynllun i gynnal pob eiddo yn y dyfodol.	

